Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Protocol Asesu Anghenion

# Cynnwys

1 PROTOCOL ASESU ANGHENION ........ 2
1.1 Cymorth i Fyfyrwyr Anabl ........ 2
1.2 Gweithdrefnau Cymorth Anabledd ........ 2
1.2.1 Nodi anabledd ........ 2
1.2.2 Gweithdrefn Asesu Anghenion ........ 3
1.3 Rheoli Fersiynau'r Ddogfen ........ 4

# 1 PROTOCOL ASESU ANGHENION

## 1.1 Cymorth i Fyfyrwyr Anabl

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol fel sydd wedi'i amlinellu yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

Os oes gan fyfyriwr gyflwr sy'n effeithio ar ei allu i wneud gweithgareddau dyddiol ac fel myfyriwr, a ddiffinnir fel anabledd, mae'n ofynnol i'r Brifysgol gynnig cyfle i'r myfyriwr ddatgelu'r anabledd a thrafod gofynion cymorth.

Cynigir cyfleoedd i bob myfyriwr ddatgelu anabledd a chynigir sgrinio am ddangosyddion Anawsterau Dysgu Penodol (ADP) i bawb. Ar ôl derbyn tystiolaeth o anabledd, cefnogir myfyrwyr yn eu ceisiadau am y Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae'r Brifysgol yn cyflogi staff cymorth dysgu arbenigol sy'n darparu cyfle cyfartal i fyfyrwyr gael mynediad i'w rhaglen astudio a chyrraedd eu llawn botensial.

## 1.2 Gweithdrefnau Cymorth Anabledd

### 1.2.1 Nodi anabledd

Pan fydd myfyriwr yn datgelu anabledd sy'n bodoli eisoes neu os nodir bod gan fyfyriwr anabledd unrhyw bryd yn ystod ei astudiaethau, cymerir y camau canlynol:

(i) Bydd y myfyriwr yn mynd am gyfweliad cychwynnol gydag un o'r tîm Cymorth Dysgu yn yr uned Gwasanaethau Myfyrwyr i ganfod natur yr anabledd ac i weld pa gymorth a allai fod ar gael neu sydd ei angen. Bydd yn ofynnol i'r myfyriwr nodi ei ddewisiadau o ran caniatâd i rannu; caiff y rhain eu cyfleu drwy ffurflen Caniatâd i Rannu. Bydd y myfyriwr yn cael copi o'r ffurflen hon a nodiadau canllaw cysylltiedig sy'n rhestru pwy y gellir rhannu'r wybodaeth â nhw. Gellir adolygu'r Ffurflen Caniatâd i Rannu unrhyw bryd y bydd y myfyriwr yn dymuno. Mae'n bosibl y bydd y myfyriwr yn dewis peidio â datgelu ei anabledd i unrhyw un heblaw am y staff Cymorth Dysgu, a gallai gwneud hynny effeithio ar y mesurau cydadferol y gellir eu defnyddio.

(ii) Bydd angen tystiolaeth o'r anabledd ar y tîm Cymorth Dysgu.Gallai hyn fod ar ffurf y canlynol:

- adroddiad gan feddyg teulu neu ymgynghorydd yn achos cyflwr meddygol corfforol neu seicolegol;
- adroddiad Seicolegydd Addysg neu Asesydd Diagnostig Arbenigol achrededig (gan ddilyn gofynion SASC – y corff rheoleiddio ar gyfer asesu ôl-16) yn achos Anawsterau Dysgu Penodol.

Os nad oes gan y myfyriwr adroddiad meddygol perthnasol / addas / derbyniol neu adroddiad asesu diagnostig, neu os nad yw wedi cael ei asesu o'r blaen fel rhywun sydd ag ADP, gall y tîm Cymorth Dysgu drefnu rhagasesiad. Os bydd asesiad diagnostig llawn yn cael ei argymell yn dilyn rhagasesiad, bydd y myfyriwr yn cael gwybod am y rhesymau dros atgyfeirio.

(iv) Bydd y tîm Cymorth Dysgu yn trefnu i asesiad pellach gael ei gynnal gan Seicolegydd Addysg neu asesydd diagnostig arbenigol mewn ADP os cynghorir camau o'r fath.

(v) Ar ôl derbyn yr adroddiad diagnostig llawn, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod ag un o'r tîm Cymorth Dysgu i fynd drwy gynnwys yr adroddiad, gan gynnwys y diagnosis a'r argymhellion. Os bydd y myfyriwr yn cael anawsterau sy'n galw am gymorth brys, gellir rhoi mesur interim o gymorth arbenigol ar waith. Bydd y tîm Cymorth Dysgu'n rhoi gwybod i aelodau perthnasol o staff y Brifysgol am y diagnosis a'r argymhellion oni bai bod caniatâd wedi'i atal.

(vi) Os cafwyd caniatâd y myfyriwr i ddatgelu anabledd, bydd yr uned Gwasanaethau Myfyrwyr yn rhoi gwybod am yr anabledd ac unrhyw addasiadau rhesymol / mesurau cydadferol, drwy ffurflen Datganiad o Fesurau Cydadferol interim (gweler Pennod 12 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'r Polisi Amgylchiadau Lliniarol), i'r canlynol:

- y Ddisgyblaeth(au) Academaidd / Clwstwr(au) perthnasol
- y Swyddfa Academaidd, Ystadau a'r Adran Gyfleusterau, y Gofrestrfa, y tîm Llety a Systemau Gwybodaeth lle bo angen.

(vii) Mewn achosion lle mae'r myfyriwr yn dymuno gwneud cais am y Lwfans Myfyrwyr Anabl, anfonir copi o'i brawf meddygol neu dystiolaeth arall i'r Corff Cyllido priodol ynghyd â llythyr eglurhaol yn gofyn am gymorth interim i'r myfyriwr os oes angen.

(viii) Os bydd y Cyngor Cyllido'n cymeradwyo'r cais am y Lwfans Myfyrwyr Anabl ac yn cytuno i ddarparu cymorth interim, bydd y tîm Cymorth Dysgu'n trefnu i'r myfyriwr gael Asesiad Anghenion i bennu pa addasiadau rhesymol / mesurau cydadferol sydd eu hangen. Bydd y tîm Cymorth Dysgu hefyd yn trefnu cymorth interim os oes angen. Anfonir unrhyw gyngor pellach / argymhellion o'r Adroddiad Asesu Anghenion i'r Ddisgyblaeth(au) Academaidd / Clwstwr(au) a staff perthnasol y Brifysgol drwy Ffurflen Datganiad o Fesurau Cydadferol ddiwygiedig.

(ix) Os bydd y Corff Cyllido'n barnu nad yw'r myfyriwr yn gymwys am gymorth, bydd y tîm Cymorth Dysgu'n cyfeirio'r myfyriwr am gymorth sgiliau astudio.

### 1.2.2 Gweithdrefn Asesu Anghenion

Cynhelir y broses Asesu Anghenion yn unol â'r Rhwydwaith Cenedlaethol o Ganolfannau Asesu (NNAC) a chanllawiau cenedlaethol a gyhoeddir gan Gyrff Cyllid / Ariannu Myfyrwyr.

Mae'r camau canlynol yn dangos y weithdrefn a ddilynir ar ôl i'r myfyriwr gael ei Asesiad Anghenion:

(i) Bydd y myfyriwr yn derbyn copi drafft o'r adroddiad asesu, y mae'n rhaid ei ddychwelyd i'r Ganolfan Asesu wedi'i lofnodi i ddynodi ei gymeradwyaeth, oni bai y llofnodwyd i ddynodi cymeradwyaeth ar adeg yr asesiad.

(ii) Anfonir copi terfynol o'r adroddiad Asesu Anghenion i'r uned Cymorth Dysgu, y myfyriwr a'r Corff Cyllido perthnasol.

(iii) Mae'r tîm Cymorth Dysgu'n gyfrifol am nodi ac argymell addasiadau / mesurau cydadferol rhesymol i ddibenion asesu. Gwneir hyn drwy'r Datganiad o Fesurau Cydadferol.

(iv) Mae'r Datganiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y myfyriwr a'i anfon at staff y Ddisgyblaeth Academaidd a staff perthnasol eraill y Brifysgol. Anfonir gwybodaeth ynghylch addasiadau rhesymol / mesurau cydadferol ar gyfer arholiadau ac asesiadau ymlaen i'r Gofrestrfa a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

(v) Yn ogystal bydd y tîm Cymorth Dysgu'n cysylltu â Disgyblaethau Academaidd pan fo angen. Mae'r tîm Cymorth Dysgu'n cadw cofnod o gyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau yn ymwneud â myfyrwyr anabl.

## 1.3 Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Protocol drafft a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr | RD (CGM) | 17.11.2021 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David